# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 2 Ebrill 2014** |
| Amser: | **09.30 - 11.55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_02_04_2014&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_02_04_2014&t=0&l=cy)

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Andrew RT Davies AC**<br>**Russell George AC**<br>**Julie James AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**William Powell AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Tystion: | **Professor Phil Goodwin, Yr Athro Phil Goodwin Prifysgol Gorllewin Lloegr**<br>**Dr Scott Le Vine, Imperial College, Llundain** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Graham Winter (Ymchwilydd)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniw, Llyr Gruffydd ac Antoinette Sandbach. Bu Elin Jones ac Andrew R T Davies yn dirprwyo yn y cyfarfod.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3, 7 ac 8

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 3 Bil Cynllunio Drafft (Cymru): Trafod y llythyr at y Gweinidog Tai ac Adfywio

3.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft, a chytunodd y byddai'r newidiadau a drafodwyd yn cael eu dosbarthu ar ffurf e-bost i'r Aelodau i'w cymeradwyo.

3.2 Os nad yw'n bosibl cytuno ar y newidiadau i'r llythyr drwy e-bost, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal trafodaeth bellach yn ystod ei gyfarfod nesaf.

## 4 Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd: Tystiolaeth gan Dr Scott Le Vine

4.1 Bu Dr Le Vine yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd: Tystiolaeth gan yr Athro Phil Goodwin

4.1 Ymatebodd yr Athro Goodwin i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 6 Papurau i'w nodi

**Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd: Sylwadau gan yr Athro Stuart Cole am y llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, dyddiedig 20 Rhagfyr 2013**

6.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod ar 5 Mawrth**

6.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**Bil Cynllunio Drafft (Cymru) - Gwybodaeth ychwanegol gan Cymorth Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru**

6.3 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd: Llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
6.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 7 Rheoli Tir yn Gynaliadwy: Trafod y materion allweddol

1.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y materion allweddol ar gyfer yr adroddiad ar ei ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy, fel y nodwyd yn y papur a drafodwyd.

## 8 Blaenraglen waith

1.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr haf.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ar gyfer cynnal ymchwiliad i goedwigaeth, a chytunodd y byddai'n ystyried cylch gorchwyl ar gyfer cynnal ymchwiliad i reoli gwastraff yn ystod ei gyfarfod nesaf.